

P-05-859 Dylid Darparu Tai Plant yng Nghymru i Blant sy'n Dioddef Camdriniaeth Rywiol

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Mayameen Meftahi, ar ôl casglu 227 o lofnodion.

Geiriad y ddeiseb

Mae'r syniad y tu ôl i dai plant yn seiliedig ar yr arferion gorau a welir yn yr UDA a Sgandinafia. Gan gydnabod bregusrwydd plant sy'n ddiოდdefwyr, a'r niwed y mae cyfweliadau niferus yn ei achosi iddynt, mae tai plant yn ymateb sy'n ystyriol o blant wrth ymdrin ag achosion lle y cam-driniwyd plentyn yn rhywiol.

Yn y DU, mae dau dŷ plant yn ninas Llundain, ond nid oes yr un yng Nghymru.

Nid yw plant yn gwybod at bwy nac i ble y gallent droi, nid ydynt yn gwybod bod cymorth ar gael, ond trwy gynnig Tai Plant ledled y DU, gallwn achub plant.

Parhau â llochesi i ddiოდdefwyr trais domestig, ond dylai fod Tai Plant ar gyfer plant sy'n diოდdef camdriniaeth rywiol.

Gwyddom y bydd llawer o blant sy'n cael eu cam-drin yn ceisio dianc rywbyrd; byddant am ddod yn rhydd o'u sefyllfa, ond nid oes ganddynt rywle i droi. Cânt eu dychwelyd adref, yn ôl i afael y sawl sy'n eu cam-drin.

Gallai darparu tŷ diogel sy'n ystyriol o blant agor y ffordd at ddatgelu a diogelu.

Yng Ngwlad yr Iâ, mae model 'Barnahús' ar waith er 1998, sef lle ar gyfer cynnal cyfweliadau ffforensig, gwneud datganiadau llys, cynnal archwiliadau meddygol a chael mynediad at wasanaethau therapiwtig, i gyd o dan un to. Dylem roi hyn ar gael, fel y gwnawn o ran llochesi i ddiოდdefwyr trais domestig. Ers i Wlad yr Iâ sefydlu'r model Barnahús, mae nifer y plant sy'n gofyn am gymorth ar ôl diოდdef camdriniaeth rywiol wedi mwy na dyblu bob blwyddyn, mae nifer y cyhuddiadau wedi treblu, ac mae nifer yr euogfarnau

wedi dyblu. Mae hyn yn ddigon o dystiolaeth i ddangos bod y tai hyn yn hanfodol.

Dylid darparu tai plant, ac ar ben hynny dylid dysgu i blant fod yr opsiynau hyn ar gael.

Ymunwch â ni yn yr ymgyrch i fynd i'r afael â'r mater hwn, a phwyso ar i Lywodraeth Cymru ddarparu Tŷ Diogel yng Nghymru – ni allwn ddisgwyl i blant fynd i Lundain, hyd yn oed lle maent yn gwybod am fodolaeth tai o'r fath.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae ar ein plant angen rhywle iddynt fynd iddo, mae angen iddynt fod yn ddiogel, ac mae angen iddynt allu cyrraedd y cymorth cywir i achub y plant hyn rhag oes o ddioddef oherwydd Camdriniaeth Rywiol.

Llofnodwch y ddeiseb hon a gwneud i bethau ddechrau symud!

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Dwyrain Abertawe
- Gorllewin De Cymru